OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2017 Rhif 81 (Cy. 30)

# IECHYD Y CYHOEDD, CYMRU

## Gorchymyn Sŵn o Larymau Tresmaswyr Clywadwy (Cymru) (Dirymu) a Rheoli Sŵn (Codau Ymarfer ar gyfer Safleoedd Adeiladu a Safleoedd Agored) (Cymru) 2017

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *24 Ionawr 2017* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *2 Chwefror 2017* |
| *Yn dod i rym - -* | *24 Chwefror 2017* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 71 a 104(1) o Ddeddf Rheoli Llygredd 1974(**1**) ac sydd wedi eu breinio yng Ngweinidogion Cymru(**2**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Sŵn o Larymau Tresmaswyr Clywadwy (Cymru) (Dirymu) a Rheoli Sŵn (Codau Ymarfer ar gyfer Safleoedd Adeiladu a Safleoedd Agored) (Cymru) 2017.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 24 Chwefror 2017.

(3) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

### Cymeradwyo cod ymarfer

**2.** Mae'r rhannau a ganlyn o god ymarfer y Sefydliad Safonau Prydeinig ar gyfer rheoli sŵn a dirgryniad ar safleoedd adeiladu a safleoedd agored, sy'n dwyn y rhif BS 5228, wedi eu cymeradwyo at ddiben rhoi cyfarwyddyd ar ddulliau priodol o leihau sŵn o'r safleoedd hynny—

(a) Rhan 1: Sŵn, sy'n dwyn y rhif BS 5228-1:2009, fel y'i diwygiwyd gan Ddiwygiad Rhif 1, a ddaeth i rym ar 21 Chwefror 2014;

(b) Rhan 2: Dirgryniad, sy'n dwyn y rhif BS 5228-2:2009, fel y'i diwygiwyd gan Ddiwygiad Rhif 1, a ddaeth i rym ar 3 Mehefin 2014.

---

(**1**) 1974 p. 40.

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol, i'r graddauyr oeddent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru o dan erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac Atodlen 1 iddo ac wedi hynny i Weinidogion Cymru o dan adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraffau 30(1) a 30(2)(a) o Atodlen 11 iddi.

**Dirymu**

**3.** Mae'r Gorchmynion a ganlyn wedi eu dirymu o ran Cymru—

(a) Gorchymyn Rheoli Sŵn (Codau Ymarfer ar gyfer Safleoedd Adeiladu a Safleoedd Agored) (Cymru) 2002(**3**); a

(b) Gorchymyn Rheoli Sŵn (Cod Ymarfer ar Sŵn o Larymau Tresmaswyr Clywadwy) 1981(**4**).

*Lesley Griffiths*
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig, un o Weinidogion Cymru

24 Ionawr 2017

(**3**) O.S. 2002/1795 (Cy. 170).
(**4**) O.S. 1981/1829.

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

O dan adrannau 71 a 104(1) o Ddeddf Rheoli Llygredd 1974, caiff Gweinidogion Cymru gymeradwyo codau ymarfer at ddiben rhoi cyfarwyddyd ar ddulliau priodol o leihau sŵn (gan gynnwys dirgryniad) a rhaid i Weinidogion Cymru gymeradwyo cod ymarfer o'r fath ar gyfer cyflawni mathau o waith y mae adran 60 o'r Ddeddf yn gymwys iddynt. Mae'r rhain yn cynnwys gwaith adeiladu a gwaith ffyrdd, gwaith dymchwel, gwaith carthu a mathau eraill o waith adeiladu peirianyddol.

Mae'r Gorchymyn hwn yn cymeradwyo'r ddwy ran o god ymarfer y Sefydliad Safonau Prydeinig ar gyfer rheoli sŵn a dirgryniad ar safleoedd adeiladu a safleoedd agored. Diffinnir safleoedd agored yn y cod fel safleoedd lle y mae gwaith sylweddol yn cael ei wneud yn yr awyr agored sy'n ymwneud â chloddio, lefelu neu ddodi deunydd.

Mae'r Gorchymyn hwn hefyd yn dirymu Gorchymyn Rheoli Sŵn (Codau Ymarfer ar gyfer Safleoedd Adeiladu a Safleoedd Agored) (Cymru) 2002 (O.S. 2002/1795 (Cy. 170)) a Gorchymyn Rheoli Sŵn (Cod Ymarfer ar Sŵn o Larymau Tresmaswyr Clywadwy) 1981 (O.S. 1981/1829).

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal asesiadau effaith rheoleiddiol mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Gorchymyn hwn.

Gellir cael y codau ymarfer sydd wedi eu cymeradwyo yn bersonol neu drwy'r post oddi wrth y Sefydliad Safonau Prydeinig (BSI) yn: Customer Services Sales Department, BSI, 389 Chiswick High Road, Llundain W4 4AL; ffôn 020 8996 7000.

Dyma rifau ISBN y codau ymarfer sydd wedi eu cymeradwyo:

| | |
|---|---|
| BS 5228-1:2009 | ISBN 978 0 580 77749 3 |
| BS 5228-2:2009 | ISBN 978 0 580 77750 9 |